Cenn@d

IONAWR 24 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 152

Byddardod Byd

Mae'n siŵr bod sawl enghraifft o wraig yn dweud am ddiffyg clyw ei phriod 'ei fod yn clywed popeth mae ef am ei glywed', a hynny mewn ffordd ysgafn gan amlaf. Peth annifyr yw bod mewn cwmni a cholli rhediad y drafodaeth am fod y clyw yn methu. Peth gwaeth o lawer yw bod y byd yn dewis peidio clywed gwirioneddau hyglyw a sylfaenol.

Ddechrau'r flwyddyn newydd hon, gwelwyd pedair pennod o ddrama ar y teledu yn dwyn y teitl *Mr Bates vs The Post Office*. Llusgodd chwarter canrif heibio ers i Mr Alan Bates, Llandudno, a Mr Noel Thomas o Ynys Môn a'u cyd-isbostfeistri wynebu hunllef o brofiad drwy gael eu herlyn a'u cosbi'n drwm, ac yn achos Noel Thomas ei garcharu ar gam. Cafodd y dramâu teledu hyn effaith sydyn a syfrdanol fel bod Mr Rishi Sunak, y Prif Weinidog, a'i gabinet wedi cynllunio deddfwriaeth briodol er mwyn dileu'r gosb a threfnu iawndal briodol. Derbyniodd sawl cymuned fod yr is-bostfeistri lleol yn euog o ladrata, a throi eu cefn ar bobl a fu gynt yn weithwyr uchel eu parch yn eu cymunedau. Nid yw'r ddeddfwriaeth hon wedi ei derbyn eto, a bu llawer o anghydweld ai dyma'r llwybr gorau i wneud iawn am y cam. Mae pawb yn unfrydol fod cam wedi digwydd, a gelwir yn unfrydol am gamau i wneud yn iawn am hynny. Bu sawl erthygl mewn papurau dyddiol a sawl rhaglen deledu yn trafod y camwri, ond gwadu'r cam wnaeth y Swyddfa Bost Brydeinig, a thawedog fu llais y llywodraeth hyd yn awr. Fe wnaeth gormod o bobl ddewis peidio â chlywed, heb sôn am wrando a gweithredu cyfiawnder.

Bu'r teledu hefyd yn fodd i ni glywed mwy am y Parchg T. B. Joshua. Gelwir y gynulleidfa a sefydlwyd ganddo yn The Synagogue Church of All Nations ac roedd miloedd o bobl yn tyrru yno am ymuno yn ei rhengoedd. Roedd yr eglwys hon yn sefydliad cyfoethog yn Lagos, Nigeria, ac yn denu pobl o bob oed a chefndir. Bu farw T. B. Joshua yn 2021, ond roedd ei greulondeb treisgar yn cam-drin merched

Llun: ITV

am dros ugain mlynedd yn hysbys ers amser maith; byddai'n gorfodi'r merched yr oedd wedi bod yn gyfrifol am eu beichiogi i erthylu eu plant.

Bu'r BBC yn ymchwilio am ddwy flynedd, yn ôl yr hanes, ac mae'r adroddiadau hyn yn gywilyddus. Er i nifer rannu eu pryderon am weithgarwch amheus T. B. Joshua, cafodd y cyfan ei anwybyddu gan yr awdurdodau. Yn y pen draw dewrder ei ferch, sef Ajoka, a ddaeth â'r erchyllterau i sylw'r byd, pan gytunodd hithau i gael ei chyf-weld gan y BBC yn ddiweddar. Bu iddi hithau brofi blynyddoedd o gamdriniaeth a thrais drwy law ei thad, tan iddi rannu'r stori mewn cyfweliad ar gyfer rhaglen y BBC ar hanes erchyll ymddygiad ei thad. Tystiodd cyn-aelodau o'r eglwys hon am y gamdriniaeth, ond prin fod unrhyw gorff crefyddol na seciwlar wedi cymryd sylw o hyn. Mae arweinwyr cyfredol yr eglwys yn gwrthod ymateb i'r cyhuddiadau diweddaraf, gan ddweud nad oes tystiolaeth ohonynt. Mae'n siŵr fod gan T. B. Joshua ddoniau cyfathrebu sylweddol a'i fod yn bersonoliaeth garismataidd eithriadol, ond nid yw camdriniaeth rywiol i'w chyfiawnhau ar unrhyw gyfrif. Tebyg fod ganddo staff technegol i'w gefnogi, a hwythau'n feistri ar y dechnoleg fwyaf soffistigedig. Ond heb gariad Crist yn llywio'r cyfan, nid yw'n ddim ond cam-drin y gwan a'r bregus yn y byd. Nid diffyg tystiolaeth oedd y broblem, ond amharodrwydd y byw i wrando. Dyma enghraifft arall o fyddardod llwyr.

Yn ystod pythefnos cyntaf Ionawr daeth stori o Rochdale, yn adrodd bod heddlu ardal Manceinion (GMP) wedi methu gyda'u hymchwiliadau i gangiau o ddynion a fu'n cynllunio i ddal merched ifanc lleol mewn modd ysglyfaethus, a'u defnyddio fel puteiniaid. Mae'r adroddiad a ddaeth i law yn ddiweddar yn sôn am y cyfnod rhwng 2004 a 2013. Dywedir bod yr Awdurdod Lleol yn ymwybodol o'r adroddiad, ac iddynt hwythau hefyd fethu ymateb yn briodol gan adael y merched hyn, fel yr heddlu, ar 'drugaredd' y gangiau llygredig hyn. Yn ôl yr adroddiad diweddaraf, bu sawl ymchwiliad blaenorol ond neb yn gwrando'n ddigon astud, gan adael merched yn eu harddegau yn marw oherwydd iddynt gael eu chwistrellu â heroin.

Dyma ein byd, yn ei fudreddu a'i anfoesoldeb. Prin fod angen i erthygl fer fel hon gyfeirio at bob enghraifft gyfoes o wamalrwydd byddar ein byd. Ond os nad ydym yn gwrando ac yn gweddïo, yn codi llais ac yn hawlio cyfiawnder, rydym yn euog o ddihidrwydd, a bydd ein tawedogrwydd yn hawlio beirniadaeth bro a byd. Canwn eto eiriau godidog Siôn Aled (*Caneuon Ffydd*, 828) ac yn benodol:

> lle bo loes, boed i'n hoes,
> adlewyrchu golau'r groes.

Denzil John

Dechrau trawsnewid drwy weddi
Tudalen 2

O'r galon
Tudalen 3

Oedfa *Cenn@d* – 'Cariad'
Tudalen 8

Dechrau trawsnewid drwy weddi

Llun: Aaron Burden, Unsplash

Fel rhan o'r tîm sydd wedi derbyn y dasg gan Adran Gweinidogaethau EBC o ailddychmygu sut mae ein Cyfundeb yn annog gweddi, gofynnwyd yn ddiweddar i mi beth oedd fy mhrif amcan yn y gwaith yma. Roedd fy saib cyn cynnig ateb ychydig yn rhy hir i fod yn gysurus ac fe fradychodd fy methiant i ofyn y cwestiwn hwn i mi fy hun cyn cychwyn.

Yn yr eiliadau tawel hynny roedd cwestiynau'n cwympo drwy fy meddwl fel meini enfawr wedi'u hysgwyd yn rhydd o glogwyn bargodol ac yn cau fy llwybr tuag at ateb synhwyrol. Beth yw pwynt gweddi? Beth yw gweddi? Wedi cael oes o weddïau heb eu hateb, pam ar y ddaear y byddwn i eisiau annog eraill i weddïo?

Hyd yn oed nawr, wythnosau'n ddiweddarach, rwy'n dal i geisio ymlafnio ar fy ffordd drwy'r rhwystrau hyn, gan feddwl tybed pam mae gweddi yn bwysig i'n heglwys o hyd. Ond, yn fy amddiffyniad, fe fentrwn ofyn: a yw hi hyd yn oed yn bosibl rhoi un ateb i gwestiwn fel hwn sy'n archwilio arwyddocâd gweddi i'r eglwys?

Mae gweddi yn enfawr. Mae'n ymwneud â bywyd cyfan ac â phersonoliaeth gyfan yr addolwr. Nid yw'n fater syml o ofyn am yr hyn sydd ei angen arnom ac yna aros nes iddo gael ei gyflwyno. Nid yw ychwaith yn weithgaredd sy'n cael ei yrru gan fformiwla lle mae'r addolwr yn sicrhau ei bod yn cynnwys addoliad, cyffes, diolchgarwch ac ymbil, ac yna mae'n gwybod ei fod yn wirioneddol wedi gweddïo. Camsyniadau fel y rhain all droi gweddi yn weithgaredd beichus ac yn ddefod farw. Na, mae gweddi mor ddwfn â'r bersonoliaeth ddynol ac mor amrywiol â bywyd ei hun.

Mae gan weddi'r gallu i'n siapio. Mae gweddi Paul yn Effesiaid 3:14–21 yn ein cyflwyno i'r syniad bod gweddi, yn enwedig pan offrymir gweddi fel rhan o grŵp, yn hanfodol er mwyn dod yn bobl sydd wedi'u gwreiddio a'u seilio ar gariad ac sy'n gwybod am gariad dihysbydd Duw. Gweddïa Paul y bydd i'r credinwyr yn Effesus gael eu trawsnewid yn barhaus, ac ar ryw ystyr, drwy'r llythyr hwn, mae'r gynulleidfa i gyd yn Effesus yn bresennol fel yr offrymir y weddi. Mae'n dangos i ni, pan fyddwn yn gweddïo gyda'n gilydd a thros ein gilydd, ein bod yn mynd i mewn yn llawnach i'r profiad o iachawdwriaeth Duw, ac felly i'r profiad o fod yn rhan o'r ddynoliaeth newydd y mae Crist yn ei chreu.

Mae gweddi'n berthnasol. Golyga hyn fod gweddi'n berthnasol i bopeth a wnawn ac i bopeth yr ydym. Nid yw i'w chadw ar gyfer sefyllfaoedd brys. Nid yw ychwaith i'w chadw ar gyfer sefyllfaoedd ysbrydol, fel y'u gelwir. Mae gweddi'n cyffwrdd â phob rhan o'n bywydau, ni waeth pa mor ddibwys neu pa mor bwysig. Nid yw hyn yn golygu ein bod am droi gweddi'n ffordd o ddadlwytho ar Dduw bob cyfrifoldeb am bob penderfyniad a wnawn. Yr hyn y mae'n ei olygu yw bod gweddi'n ein helpu i benderfynu pa fath o berson yr ydym am fod yn y sefyllfa ddibwys neu'r sefyllfa argyfyngus hon. Trwy hynny mae'r Arglwydd yn ein galluogi i ddewis unwaith eto i fod fel Crist. Mae gweddi, felly, yn ymwneud â phopeth a wnawn oherwydd ei bod yn siapio popeth ydym ni.

Yn y diwedd rhoddais ateb i'r un oedd wedi fy holi. Fy nod, meddwn, yw annog aelodau ein heglwys i weddïo. Ni allaf ddweud fy mod yn hapus gyda'r ateb hwn. Byddwn wedi dymuno bod wedi gallu egluro cyfoeth gweddi a chyfoeth ei phosibiliadau. Ond, wrth feddwl am hyn drachefn, os yw ein Heglwys i fod yn un o offerynnau Duw i ddwyn trawsnewidiad i fodolaeth yn ein gwlad, yna mae angen i ni ein hunain fod yn agored i'r trawsnewidiad dwyfol hwnnw sydd wedi'i ddechrau ac yn cael ei yrru gan nerth dwyfol Ysbryd Glân Duw ei hun. Mae angen i ni fod yn bobl sy'n cael eu siapio drwy dreulio amser gyda'n gilydd ym mhresenoldeb Duw. Ymrown iddi gyda'n gilydd ar ddechrau blwyddyn newydd. **Mae angen inni weddïo.**

Owen Griffiths
Henaduriaeth y De-ddwyrain
Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Mae tîm gweddi Adran Gweinidogaethau EBC yn cylchredeg holiadur ar hyn o bryd ar ein hagwedd tuag at weddi o fewn y Cyfundeb. Y bwriad yw calonogi ein haelodau gyda golwg ar eu bywydau gweddi. Gwahoddir holl weinidogion a gweithwyr y Cyfundeb i dreulio ychydig funudau'n llenwi'r holiadur syml yma: https://www.smartsurvey.co.uk/s/5L5PA8/

O'r galon

Aros mewn Cariad

'Yr awr hon y mae yn aros ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn; a'r mwyaf o'r rhai hyn yw cariad'

Rydym wedi bod yn ystyried cydberthynas ffydd a gobaith, ac fe drown y tro hwn i ystyried pam fod cariad hefyd yn aros ac mai cariad yw'r mwyaf o'r rhai hyn.

Y mae ffydd yn AROS ynddo Ef
Hanfod ffydd yw ymddiried a dyfalbarhau mewn perthynas cyfamodol â Duw yn Iesu, gan orffwys yn y gwirionedd mai rhodd ganddo Ef ydyw. Y mae'n aros am mai Ef sydd wedi cyflawni'r cyfan: nid yw'n dibynnu ar weithredoedd na'r hyn a welir, ond yn yr hwn sydd wedi gwneud yr Addewid, a'i selio â'i waed ei hun.
Fel hyn y mae ffydd yn AROS.

Y mae gobaith yn AROS ynddo Ef
Hanfod gobaith yw ein bod yn aros yn ddisgwylgar am yr hyn na welwn eto yn llawn, er bod ernes ohonno gennym drwy'r Ysbryd Glân. Gobaith sydd wedi ei wreiddio yn ei berson a'r hyn y mae wedi ei gyflawni ar ein rhan, ei eiriolaeth a'i addewid. Fel nad yw ffydd yn ddibynnol ar weithredoedd, nid yw gobaith yn ddibynnol ar yr hyn a welwn.
Fel hyn y mae gobaith yn AROS.

Beth felly am y mwyaf o'r rhain: **cariad**?

'A dyma obaith na chawn ein siomi ganddo, oherwydd y mae cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonnau trwy'r Ysbryd Glân y mae ef wedi ei roi i ni' (Rhufeiniaid 5:5).

Cariad yn aros

Ystyriwch fynegiad ein hoes o beth yw cariad. Fe welwn yn glir ar sgrin ein teledu, mewn dramâu a nofelau, yn y newyddion, mewn caneuon poblogaidd, ym mywydau'r bobl o'n cwmpas. Mae syniadau ein hoes mor 'bresennol' am gariad:

- rwy'n dy garu heddiw, am rŵan
- cariad nad yw'n llawer mwy na serch, neu hyd yn oed flys
- cariad sy'n digoni fy anghenion i, nid dy anghenion di
- cariad nad yw'n aros, ond yn ceisio gwrthrych newydd i'w ddigoni.

Eto, mae mynegiadau eraill o gariad dynol sy'n bwrw goleuni llawer iawn cliriach ar beth yw gwir gariad. Beth ydynt, tybed? Allwch chi feddwl?

A heb fod gennyf gariad …
Dywed Paul yn glir wrthym sut ddylai cariad fod:

> [4] Y mae cariad yn amyneddgar; y mae cariad yn gymwynasgar; nid yw cariad yn cenfigennu, nid yw'n ymffrostio, nid yw'n ymchwyddo. [5] Nid yw'n gwneud dim sy'n anweddus, nid yw'n ceisio ei ddibenion ei hun, nid yw'n gwylltio, nid yw'n cadw cyfrif o gam; [6] nid yw'n cael llawenydd mewn anghyfiawnder, ond y mae'n cydlawenhau â'r gwirionedd. [7] Y mae'n goddef i'r eithaf, yn credu i'r eithaf, yn gobeithio i'r eithaf, yn dal ati i'r eithaf. (1 Corinthiaid 13)

Edrychwch ar y bennod i weld peth mor anodd yw cariad mewn gwirionedd.

Aros mewn cariad
Y gair a gyfieithir yn 'aros' (1 Corinthiaid 13:13, '*menei*' yn y Groeg) yw'r un gair ag sydd yn Ioan 15 am 'aros' yn y Tad a'r Mab (Ioan 15:4–10). Mae'r ddameg am y winwydden ar ddechrau'r bennod yn pwysleisio natur glòs a pharhaol y berthynas. Datblygiad o'r cysyniad yw defnydd Paul o'i hoff ymadroddion, 'yng Nghrist', 'ynddo ef', a'u tebyg.

Duw, cariad yw
Mae'r cariad yn aros am mai cariad YW Duw:

> "Gyfeillion annwyl, gadewch i ni garu ein gilydd, oherwydd o Dduw y mae cariad, ac y mae pob un sy'n caru wedi ei eni o Dduw, ac yn adnabod Duw. Y sawl nad yw'n caru, nid yw'n adnabod Duw, **oherwydd cariad yw Duw**. Yn hyn y dangoswyd cariad Duw tuag atom: bod Duw wedi anfon ei unig Fab i'r byd er mwyn i ni gael byw drwyddo ef. **Yn hyn y mae cariad: nid ein bod ni'n caru Duw, ond ei fod ef wedi ein caru ni**, ac wedi anfon ei Fab i fod yn aberth cymod dros ein pechodau. Gyfeillion annwyl, os yw Duw wedi ein caru ni fel hyn, fe ddylem ninnau hefyd garu ein gilydd." (1 Ioan 4:7–11, BCND)

A'r mwyaf o'r rhain yw cariad
Ein lle ni yw derbyn ein trochi yng ngharia Duw a fydd yn esgor ar obaith a ffydd, megis ffrwyth y winwydden.

Mae cariad yn arwain at obaith, ac yn rhoi gobaith sy'n AROS,
mae cariad yn arwain at ffydd, ac yn cynnal ffydd sy'n AROS,

A'r mwyaf o'r rhain yw cariad – cariad sy'n AROS ynddo Ef.

Hywel Rhys Edwards

UNDEB YR ANNIBYNNWYR CYMRAEG

Hysbyseb Swydd

Ysgrifennydd Gweinyddol
Llawn-amser 37.5awr yr wythnos

Chwilio am her? Awydd newid gyrfa?

Dyma gyfle cyffrous i berthyn
i dîm blaengar sy'n gweinyddu
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Ydych yn meddu ar y sgiliau
i reoli cyllid a chynnig arweiniad i'r
Undeb ar faterion ariannol a statudol?

Oes gennych y ddawn i ddatblygu
perthynas gydag eglwysi ar
faterion yn ymwneud â'u cyllid, statws
elusennol a chyfrifoldebau statudol?

Os felly, rydym yn awyddus
i glywed gennych.

I gael pecyn gwybodaeth ymgeiswyr neu am sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r swydd, cysylltwch â'r
Ysgrifennydd Gweinyddol
Tŷ John Penri,
5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon,
Bro Abertawe, ABERTAWE. SA7 0AJ

Ffôn: 01792-795888
E-bost: ann@annibynwyr.cymru

Dyddiad cau: 12 Chwefror 2024

Gair o gydymdeimlad

Gyda thristwch y daeth y newydd o Wrecsam am farwolaeth yr annwyl Barchedig Tom Wright ar 17 Ionawr yn ei gartref yng nghwmni ei deulu. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Catherine, Megan, Rachel a Huw a'r holl deulu.

Ffydd a Diwylliant

Mae Dolig yn dal i fod yn ddigon agos nes bod ambell i damaid o dinsel o gwmpas y lle fel broc môr ac 'O Deuwch, Ffyddloniaid' yn dal i droi ym mhen rhywun o dro i dro.

Gewch chi gwestiwn yn aml, 'beth yw'ch hoff garol?' Anaml iawn gewch chi neb yn holi a oes gennych chi gas garol.

Petai rhywun yn holi, dwi'n meddwl mai 'Pen-blwydd hapus i'r baban Iesu' fydda f'un i.

Iawn, mae'n garol ddiniwed i blant bychain i'w chanu. Ond dwi'n amau ein bod ni i gyd wedi mynd i fwynhau ei chanu hi.

Ym mha gyd-destun arall mae rhywun yn dymuno pen-blwydd hapus i faban? I berson ddathlu ei phen-blwydd neu ei ben-blwydd, mae o reidrwydd wedi peidio â bod yn faban! Ar y gorau mae'n gwb blwydd. Gall ddathlu canrif a rhagor o fodolaeth. Dychmygwch ganu 'Pen-blwydd hapus i'r baban Arthur/Hannah' a hwythau'n eistedd dan goron o wallt gwyn a thylwyth eang o'u cwmpas nhw.

Ond dwi'n credu bod mwy iddi na hynny hyd yn oed.

Ydy, mae'r Nadolig, wrth reswm, yn dathlu geni Iesu, a dyna lle mae'r ffocws. Ac ydy, mae'r ddelwedd ffug honno o'r bugeiliaid, a'r doethion a'r angylion a phawb yn gwasgu i mewn i stabl lân a golau, gyda'r ddelwedd mwyaf adnabyddus yn y byd.

Prin bod neb ond plant i selébs yn cael eu geni'n enwog. Dod yn enwog waeth Crist, ac fel y lapiwyd o mewn cadachau a'i osod yn y preseb fe'i lapiwyd hefyd ym mytholeg a phroffwydoliaethau'r Iddew er mwyn 'profi' fod ei daith wedi ei rhagordeinio. Doedd y 'baban Iesu' erioed yn enwog.

Ond mae'n hawdd dathlu'r glân a'r diniwed, yn dydy? Mae'n braf meddwl am faban llonydd mewn llieiniau sy ddim yn cropian, ddim yn cerdded nac yn herio'i rieni, heb sôn am droi'r byrddau yn y deml na herio awdurdod yr Ymerodraeth a chael ei groeshoelio.

Oes, wrth gwrs fod yna wyliau i gofio'r pethau hynny. A Gŵyl y Geni ydy'r Nadolig wedi'r cwbl. Ond mae rhywbeth am resymeg od y geiriau, o ddymuno pen-blwydd hapus i faban, sy'n awgrymu i mi ryw awydd i'w gadael hi yn fan'no. I gadw Crist fel baban tragwyddol. Yn llonydd, gysglyd, mewn glendid *soft-focus*.

Beth felly am fy hoff garol? Efallai fod yr ateb yn egluro fy agwedd tuag at 'Pen-blwydd hapus ...'

Mae 'Suai'r Gwynt' yn cyfosod babandod a dyndod Crist mor gelfydd. Yn ein hatgoffa pam bod y stori wedi ei theilwra i gyd-fynd â'r proffwydoliaethau. Yn dathlu'r baban ac yn cofio'r hanes yr un pryd:

> Cwsg, cwsg, f'anwylyd bach,
> cwsg nes daw'r bore iach,
> cwsg, cwsg, cwsg.

Am ddelwedd hyfryd – sy'n cael ei chwalu gan:

> cwsg cyn daw Herod â'i gledd ar ei glun,
> cwsg, fe gei ddigon o fod ar ddi-hun,
> cwsg cyn daw'r groes i'th ran.

Ysgytwol.

Ond, yn anffodus, ar ôl sgwennu hyn, tôn 'Pen-blwydd hapus i'r baban Iesu' fydd yn troi yn fy mhen i am ddyddiau eto. A'ch pen chithau hefyd, beryg. Sorri. Blwyddyn newydd dda!

Rocet Arwel Jones

Prif Weithredwr Cytûn am ymadael â'r swydd ym mis Ebrill 2024

Mae Prif Weithredwr Cytûn, Siôn Brynach, wedi cyhoeddi y bydd yn ymadael â'r swydd honno ym mis Ebrill 2024.

Bydd yn symud i fod yn offeiriad llawn amser gyda'r Eglwys yng Nghymru fel ficer yn ardal weinidogaeth gorllewin Caerdydd.

Mewn datganiad a ryddhawyd gan Cytûn ar 21 Ionawr, dywedodd Siôn:
"Mae wedi bod yn fraint ac yn bleser bod yn Brif Weithredwr Cytûn ers Ebrill 2023, a byddaf yn edrych yn ôl ar y tri mis ar ddeg yn y swydd fel cyfnod cyffrous ac adeiladol. Rwy'n gobeithio y byddaf yn gadael gwaddol adeiladol o fod wedi holi cwestiynau heriol i aelod-eglwysi Cytûn trwy'r ddarlith a draddodais ym mis Awst 2023, a thrwy'r cyfarfod rhwng arweinwyr eglwysig Cymru ac ymddiriedolwyr Cytûn ym mis Hydref 2023.

"Mae adroddiad y cyfarfod hwnnw ar fin cael ei gyhoeddi ar wefan Cytûn ac rwy'n annog pob enwad yng Nghymru i ddarllen hwnnw a myfyrio o'r newydd ar

y ffyrdd y medrant gyfrannu at y 'tymor newydd o eciwmeniaeth' y cyfeiriodd yr arweinwyr eglwysig ato yn eu cyfarfod ym mis Hydref.

Gan ymateb dywedodd Cadeirydd Cytûn, y Parch Jennie Hurd:
"Roedd hi'n ddrwg gen i glywed am benderfyniad Siôn i ymadael â swydd y Prif Weithredwr, ond rwy'n hynod ddiolchgar iddo am ei holl waith hyd yma, ac yn edrych ymlaen at yr hyn y bydd yn ei gyflawni hefyd dros y misoedd cyn ei ymadawiad. Rwyf wedi mawr werthfawrogi cydweithrediad Siôn yn y swydd ac yn dymuno pob bendith iddo wrth iddo gychwyn ar gam nesaf ei weinidogaeth gyda'r Eglwys yng Nghymru. Gwn y bydd ei ddycnwch dros eciwmeniaeth yn parhau."

Plygain Llwyndyrys

Cynhaliwyd y plygain cyntaf erioed yng Nghapel Llwyndyrys ddechrau Ionawr ac roedd yn llwyddiant ysgubol. Mae cangen Llwyndyrys o Ferched y Wawr wedi hen arfer trefnu gwasanaeth ar nos Fawrth gyntaf mis Ionawr i groesawu'r flwyddyn newydd. Eleni, penderfynwyd trefnu plygain ar y cyd efo swyddogion y capel.

Roedd yr adeilad bron yn llawn ar y noson gan i blygeinwyr o sawl cwr o'r penrhyn, yn bartïon, triawdau ac unigolion, ddod ynghyd naill ai i ganu'r hen garolau neu i fwynhau'r canu oedd, heb os, o safon arbennig. Cafwyd cyflwyniad ar lafar am wreiddiau gwerinol y garol 'Dawel Nos' hefyd ar ddechrau'r noson, ac englyn gan y Prifardd a'r Archdderwydd Myrddin ap Dafydd tua'r diwedd.

Bethan Jones Parry, Eleri Hughes ac Alwena Roberts fu'n trefnu ar ran Merched y Wawr, a'r Parchedig Aled Davies agorodd a chau'r plygain.

'Roedd hi'n hyfryd gweld capel Llwyndyrys yn gyfforddus lawn ar gyfer ein plygain cyntaf,' meddai Aled. 'Cafwyd noson gofiadwy wrth weld rhai'n dod ymlaen, un ar ôl y llall, i gyflwyno'u heitemau mewn awyrgylch addolgar. Diolch i griw cangen Merched y Wawr Llwyndyrys am drefnu'r gwasanaeth, a gobeithio y bydd yn rhywbeth fydd yn digwydd yn flynyddol o hyn ymlaen.'

Gwnaed casgliad o oddeutu £120 a fydd yn cael ei rannu rhwng nifer o elusennau lleol. Bethan Jones Parry ydi Llywydd y gangen eleni ac roedd hithau wedi ei phlesio'n arw gan ymateb yr ardal i'r plygain cyntaf yma. 'Mi rydw inna fel Aled Davies yn gobeithio y bydd yna blygain arall y flwyddyn nesaf a phob blwyddyn wedyn am flynyddoedd i ddod,' ychwanegodd.

Gethin Engan Jones, Llangybi – yr ieuengaf o'r plygeinwyr – gyda Bethan Jones Parry, Llywydd MyW Llwyndyrys

Plygain Llwyndyrys

Mae'n Galan, ac mae'n golau – eto'n wan
a'n tŷ'n oer, ond seiniau
cân a gawn, cawn dân, cawn gau
yr Ŵyl drwy'r hen garolau.
Myrddin ap Dafydd

Plygeiniau'r Gogledd-ddwyrain

Nos Sul, 14 Ionawr, noson yr Hen Galan, cynhaliwyd Plygain yr Wyddgrug ym Methesda, yr olaf o blygeiniau'r gogledd-ddwyrain am y tymor hwn. Calondid mawr ydy gweld y gefnogaeth i'r gwasanaeth traddodiadol Cymreig a Chymraeg iawn hwn yn tyfu pan fo cymaint o bethau eraill yn dirywio. Ai ei natur werinol ac unigryw sy'n tynnu? Mae'n dda dathlu traddodiad sy'n rhoi cymaint sylw i'r neges Gristnogol gyda'r Efengyl wrth ei ganol.

Er mai ym Maldwyn y maent gryfaf eto, bu cefnogaeth gan Gymry Cymraeg a dysgwyr i'r plygeiniau yma o'r cychwyn a thrysori mawr arnynt gan bobl yr ardal fel rhan o'n treftadaeth ninnau hefyd. Yma yn y gogledd-ddwyrain ar y ffin, fel ym Maldwyn, mae yna ymdeimlad cryf o warchod a dathlu'r hyn sy'n ein gwneud yn unigryw fel Cymry, a hynny rhag inni gael ein hysgubo ymaith gyda'r lli diwylliannol Seisnig sydd o'n cwmpas mor gryf.

Dechreuodd y tymor ar ddydd Nadolig gyda phlygain am saith y bore yn Soar, Nercwys. Mae'r plygain hwn bellach wedi cyrraedd ei 40 oed ar ôl ei ailsefydlu yn yr wythdegau gan bobl ifanc y capel ar ôl clywed am y plygain yn Nercwys yn nofel Daniel Owen, *Gwen Thomas*. Digwyddodd yr ail yn y Berthen, Licswm ar 7 Ionawr gyda chynulleidfa deilwng wedi dod i glywed y plygeinio. Dim ond ers y llynedd y mae plygain wedi ei gynnal yn y Berthen, un o eglwysi anghydffurfiol hynaf y sir. Ond mae traddodiad y plygain ym mhen uchaf sir y Fflint yn ymestyn yn ôl yn bell, a chael ei symud o gapel Lloc y Wesleaid, a gaewyd yn ddiweddar, fu hanes y plygain hwn a'i ailblannu yn y Berthen ar nos Sul gyda swper teilwng i ddilyn.

Cafwyd plygain yn yr Wyddgrug ers 2008 gyda chefnogaeth y Fenter Iaith ar y pryd, ond bellach mae'n sefyll ei dir ei hun o dan adain yr eglwys. Hyfryd oedd gweld yn y tri phlygain deuluoedd, a thair cenhedlaeth ambell waith, o'r ardal a chyffiniau'r gogledd-ddwyrain yn canu mawl. Clywyd myrdd o hen garolau, gan gynnwys un Edward Parry, Llansannan, a gyhoeddwyd yn *Cenn@d* yn ddiweddar. Ond y cyflwyniad a fydd yn aros gyda mi fydd un Myron Lloyd o Ruthun a gyflwynodd 'Garol y Gair'. Dysgodd y garol ar gyfer y gystadleuaeth alaw werin yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1960, lle bu'n fuddugol – a rhyfeddod y Gair yn gnawd yn dal i swyno cenhedlaeth newydd.

Parti Soar yn agor y plygain fore'r Nadolig

Diolch i bawb am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth i'r plygeiniau dros y Nadolig, a boed i'r traddodiad braf hwn ddwyn ffrwyth lawer wrth i bobl glywed yr alwad daer yn y carolau plygain i ddod at y ceidwad – 'fel yr wyt, i mofyn am y noddfa, fel yr wyt'.

Huw Powell-Davies

Plygain Rhos-y-Gad

Mae'n dda bod yr hen draddodiad Cymraeg o gynnal 'plygain' yn parhau i ddal sylw a chefnogaeth yn ein dyddiau ni. Mae yna gymaint o gyfoeth cerddorol a hefyd sylwedd efengylaidd yn y penillion sy'n cael eu canu.

Rydym wedi bod yn cynnal plygain yn Eglwys Unedig Rhos-y-Gad ers rhai blynyddoedd bellach, a braf oedd gweld y capel yn llawn, heb sôt wag. Braf hefyd oedd gweld yr amrywiaeth mewn oedran, gan gynnwys nifer yn eu harddegau, eu dauddegau, tridegau a phedwardegau. Gochelwn rhag mesur llwyddiant yn nhermau niferoedd yn unig, ond diolch am y rhai oedd wedi cael eu cyffwrdd yn y gwasanaeth.

Gweddïwn hefyd y bydd sylwedd neges y carolau – sy'n atseinio mor glir am gynnig a gobaith yr Efengyl – yn sail y bydd Duw yn ei defnyddio wrth i'w Air gael ei rannu a'i bregethu. Mae modd gwylio'r plygain trwy ddilyn y ddolen yma:

https://www.youtube.com/watch?v=nQXCTJ7aNPA

Alun M. Thomas

Gair Duw ar Waith
gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 18
Anghenion Govan yn Glasgow
Sul, 28 Ionawr

Gweddi
Dduw pob daioni, gofynnwn am dy gymorth i werthfawrogi pwysigrwydd cydweithio fel eglwysi er budd cymdogaeth eang, ac y byddwn yn myfyrio ar dy bwrpas di ar ein cyfer o fewn cynllun dy weinidogaeth. Amen.

Darlleniad: 1 Timotheus 5: 1–16
‘Dyletswyddau tuag at eraill’

Cyflwyniad
Yn yr uned ddiwethaf, buom yn effro i rym gweddi yn lleol yn hanes Dorcas, ac i weledigaeth fyd-eang yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol. Yn y myfyrdod hwn awn i’r Alban ac aros am ennyd yn Govan, ardal sydd tua dwy filltir a hanner o ganol Glasgow, ar lan afon Clyde, ac yn enwog am adeiladu llongau. Bydd llawer yn meddwl am yr ardal fel un dlawd a difreintiedig. Glasgow yw pedwaredd dinas fwyaf Prydain gyda phoblogaeth o 1,100,000, tra mae Caerdydd yn ddeuddegfed ar y rhestr, gyda 488,000 o boblogaeth. Rhan o bwyslais cadarnhaol y fro yw’r ffaith fod yr eglwysi’n perthyn i’r Glasgow City Mission sy’n cyflogi nifer o bobl. Mae gan y grŵp yma statws elusennol gyda Bwrdd o Gyfarwyddwr i fugeilio’r gwaith. Mae gan y Bwrdd ystod eang o gynlluniau ac maent yn llwyddo i gydlynu llawer o wasanaethau dros yr henoed, y di-waith, y digartref a’r ifanc.

Mae’r GCM yn bodoli ers 1826 ac mae ganddo draddodiad o wasanaeth clodwiw, fel y London City Mission, sef corff cyfatebol yn Llundain. Ni allwn ond gofyn pa fodd y gallai corff tebyg ddigwydd yng Nghaerdydd, Abertawe, Wrecsam a Chasnewydd. Bu un o ganghennau’r GCM yn canolbwyntio er 1986 ar waith plant meithrin ac mae 40 o blant bach yno ac adran hŷn yn gweithio gydag adran feithrin. Bydd y sefyllfa Gymreig yn awyddus i sôn am eglwysi yn pontio gyda’r Mudiad Ysgolion Meithrin, ac mae digon o enghreifftiau o hynny ledled y wlad. Byddant yn cynnig pwyslais ar feithrin gwerthoedd teuluol ac yn hyrwyddo sgiliau i fod yn rhieni da.

Rhan arall o’r gwasanaeth yw dangos gofal dros yr henoed a’r di-waith, a hynny mewn canolfannau ‘galw heibio’ – y ‘drop-in centres’. Bydd 130 o bobl yn cael eu bwydo’n ddyddiol yno ac mae’r ganolfan wedi ei hadeiladu yn unswydd at y diben hwn. Mae ar agor rhwng 10 o’r gloch y bore a 10 o’r gloch yr hwyr o ddydd Llun i ddydd Gwener, a hefyd ar agor ar brynhawniau Sadwrn.

Bydd rhannau o’r darlleniad yn anodd i ni eu hamgyffred, ond gwelwn Timotheus yn brwydro i roi trefn ar ei feddwl ac ar ei argymhelliad i’r wedd o ofalu dros eraill. Ceir pwyslais canolog o ofalu dros eraill, a hynny yng nghyd-destun bod yn ddilynwyr i Iesu.

Myfyrdod
Pan fyddwn yn ystyried cyfanswm gwasanaeth yr eglwysi ar draws y flwyddyn, boed fel eglwysi unigol neu fel grwpiau o eglwysi mewn ardal neu ddinas, mae’n anhygoel bod cymaint yn digwydd. Yn ystod y gyfres hon o fyfyrdodau mae gennym destun diolch ac achos i lawenhau. Eto, cymaint mwy y gallai’r eglwysi ei gyflawni pe bai mwy o gydweithio a llai o bwyslais ar gynnal adeiladau a etifeddwyd gan saint ddoe. Oni ddylem ganolbwyntio ar beth y gellir ei wneud gyda phobl heddiw a sut i gynnig arweiniad ar gyfer y dyfodol? Aeth cymaint o’n hadeiladau yn symbol o’n crefydd, heb gofio mai cyfrwng yw’r canolfannau hyn i’r eglwys wneud ei gwaith, boed yn addoliad, boed yn wasanaeth i’r gymdeithas.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu’r eglwysi yn y Cymoedd yn wirioneddol wych yn darparu bwyd i’r anghenus, ac yn yr un modd pan oedd y glowyr ar streic yn y ganrif ddiwethaf bu’r eglwysi yn lloches ac yn gynhaliaeth i gymdogaethau eang. Mae trigolion Aberfan yn dal i gofio’r modd y bu’r eglwysi yn gwasanaethu yn awr eu hangen, a da hynny. Wrth i’n hadeiladau ddirywio nes eu bod yn fwy o feichiau ar sawl cynulleidfa, gofynnwn a oes gan yr eglwysi yng Nghaerdydd ac yng Nghymru weledigaeth ehangach, fel a ddangoswyd yn Glasgow a Llundain, a nodi dim ond dwy enghraifft eithriadol? Yn anffodus, byddwn yn tybied bod yr adeiladau gennym am byth ac mai ein braint yw eu gwarchod, heb feddwl beth yw ein gwir etifeddiaeth a gwir her yr eglwysi i fyw’r Efengyl.

Gweddi
Nefol Dad, agor ein llygaid i weld y posibiliadau sydd o’n blaen a pha fodd y gallwn ymryddhau o hualau ddoe a meddwl o ddifrif am garu cymydog, pwy bynnag y bo. Amen.

Cwestiynau i’w hystyried
1 Roedd cyd-destun geiriau Timotheus mor wahanol i Gymru heddiw, ond a yw hi’n bosibl i ni amgyffred amgylchiadau ei gyfnod ef yn ein dyddiau ni?
2 Beth yw’r cysylltiad rhwng y graslonrwydd Cristnogol i drugarhau a’r dyhead dynol i helpu rhywun arall?
3 Pa fath o weithgareddau fel rhai Govan y carech eu gweld yn digwydd yn eich ardaloedd chi?
4 A fyddwch yn gweld llaw Duw yn llywio agweddau dyngarol eglwysi lleol, yn ogystal â mudiadau byd-eang fel Cymorth Cristnogol?
5 Sut mae gwahaniaethu rhwng ‘dyletswydd’ a ‘braint’?

S4C
Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 28 Ionawr am 7.30yh
Chwaraeon a ffydd
Ar drothwy pencampwriaeth y Chwe Gwlad, mae Lowri Morgan yn dathlu gwersi ysbrydoledig byd y campau ac emynau dyrchafol y maes rygbi. A chawn berfformiad gan Gôr Meibion Pendyrus.

BBC radio cymru
Caniadaeth y Cysegr
Sul, 28 Ionawr, am 7:30yb a 16:30yp
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni’r Gwir Barchedig Dorrien Davies, esgob Tyddewi

Oedfa Radio Cymru
Sul, 28 Ionawr, am 12yp
Oedfa dan ofal Prydwen Elfed-Owens, Trefnant

LLEUWEN

EMYNAU COLL Y WERIN / LOST WELSH FOLK HYMNS

CHWEFROR / FEBUARY 2024

13 - Capel Cendy ABERNANT SAD 4RW, 7:30pm
14 - Capel y Morfa ABERYSTWYTH, 7:30pm
15 - Capel Bethel LLANFFESTINIOG LL41 4NF, 7pm
16 - Capel Smyrna LLANGIAN LL57 7LN, 7pm
17 - Capel Salem PENMACHNO, 7:30pm
18 - Capel Peniel DEGANWY, 10am
Capel Bethesda YR WYDDGRUG, 6pm
19 - Capel PENCAENEWYDD LL53 6RB, 7:30pm
22 - Mission Gallery ABERTAWE SA1 1TY, 7:30pm
23 - Capel Mynydd Seion CASNEWYDD NP20 1LZ, 7:30pm
24 - Capel Salem CAERDYDD CF5 1QF, 7:30pm
25 - Capel Tabernacl EFAIL ISAF, 11am

EBRILL / APRIL 2024

20 - Capel GLYNARTHEN SA44 6NX, 2pm
21 - Capel Hermon CYNWYL ELFED SA33 6SR, 2pm
Capel NANTERNIS, 7pm
22 - Capel y Priordy, CAERFYRDDIN, 7pm
23 - Capel Ebeneser LLANDEILO, 7pm
24 - Capel Elim LLANDDEINIOL SY23 5AN, 7pm
25 - Capel Goffa Ann Griffiths DOLGANOG SY21 0LQ, 7pm
26 - Capel Nant y Benglog CAPEL CURIG, 7pm
27 - Capel Shiloh TREGARTH, 7:30pm
28 - Capel Cwmtirmynach LLANDDERFEL Bala LL23 7EB, 6pm
29 - Capel Rhos-y-Gad LLANFAIRPWLL 7:30pm
30 - Capel y Waen, LLANELWY LL17 0DY, 1pm
Capel Mawr DINBYCH LL16 3SW, 7pm

MAI / MAY 2024

1 - Capel TUDWEIILIOG LL53 8NE, 7pm
2 - Capel Bethesda LLANGENNECH, 7pm
3 - Capel Bethania Y TYMBL, 7pm

Ffoto : MCPhotographie29

Oedfa *Cenn@d* – 'Cariad'

Ble mae'r amser yn mynd? Ry'n ni bron ar ddiwedd Ionawr yn barod, gydag addunedau blwyddyn newydd wedi'u torri neu eu hen anghofio. Ar 25 Ionawr byddwn yn dathlu dydd Santes Dwynwen a chanol mis nesaf yn cofio Sant Ffolant.

I ni'r Cymry, haws cofio'r rhai ry'n ni'n eu caru ar ddiwedd Ionawr, cyn i'r holl heip godi prisiau blodau, siocled ac anrhegion ddechrau Chwefror.

'Ta pa ffordd ry'n ni yn edrych arni, ry'n ni yn nhymor y cariad a'r cariadon. Felly, gadewch i ni addoli Duw'r cariad.

Gweddi

O Arglwydd Dduw, agor ein llygaid, ein calonnau, ein meddyliau, fel y gallwn sylweddoli dy gariad mawr tuag atom. Gad i ni adlewyrchu hwnnw yn ein haddoliad ac yn y ffordd ry'n ni'n byw. Bydd gyda ni wrth i ni fyfyrio ar y gair ac yn y gân. Gofynnwn i ti ein harwain i ddangos dy gariad i bawb ry'n ni'n ymwneud â hwy, boed ffrind neu ddieithryn. Amen.

Cyflwyniad

Trwy wyrthiau Facebook, fe wnes i dderbyn llun beth amser 'nôl, a rhag ofn imi dorri rheolau hawlfraint, gwell ei ddisgrifio yn hytrach na gweld *Cenn@d* yn cael ei erlyn. Llun ydoedd o Iesu yn dala bocs siâp eglwys, gyda thŵr ac ati. Wyneb gweddol drist oedd gan Iesu wrth iddo siarad â Duw. Mae Duw yn gofyn iddo pam roedd yn edrych mor ddiflas – onid oedd wedi gofyn am eglwys? A dyna beth roedd e wedi'i gael? Ac Iesu'n ymateb drwy ddweud, 'Ie, ond dyw'r bobol 'ma ddim yn dod allan o'r bocs.'

Emyn 387 'Cariad Iesu Grist'

Wrth i ni brofi'r cariad, gadewch i ni ddarllen **Ioan 21:15–19**.

Mae hwn yn ddarn cyfarwydd iawn i ni, wrth i ni feddwl am Iesu yn cael barbeciw pysgod ar y traeth – nid y prydau rhamantus fydd mewn amryw lefydd dros yr adeg yma, dim bwrdd tawel a golau cannwyll. Brecwast ar y traeth, a her i Pedr ac i ni. Am olygfa mewn drama! Gweld Iesu a Pedr yn ymresymu am y presennol a'r dyfodol. Byddai rhai'n dweud mai dyma'r sgwrs fwyaf yn y Beibl.

'Wyt ti, Pedr, yn fy ngharu yn fwy na'r holl bethau hyn o'n cwmpas ni?' (Y pysgota, y cwch, y pysgod ac ati)

Y cyfan yn digwydd wrth dân golosg ac yn atgoffa Pedr o'r gwadu wrth y tân.

'Wyt ti, Pedr, yn fy ngharu yn fwy na'r disgyblion sy'n pysgota gyda ti?' (Thomas, a elwir Didymus, a Nathanael o Gana Galilea, a meibion Sebedeus, a dau arall o'i ddisgyblion)

A'r drydedd waith, 'Wyt ti, Pedr, wir yn fy ngharu i? Edrych arnat ti dy hunan, a dangos dy gariad i mi.'

Bob tro roedd Iesu yn holi, roedd Pedr yn mynd yn fwy trist ac yn fwy penderfynol, 'Wrth gwrs, Arglwydd, rwyt ti'n gwbod hyn. Pam holi drosto a throsto?'

Emyn 871 'Dyro dy gariad i'n clymu'

Myfyrdod

Wrth i ni feddwl am gariad a serch amser Dwynwen a Ffolant, y llun ry'n ni'n ei gael yn ein pen yw un o bryd rhamantus, blodau, a falle anrheg. Popeth i fod i ddangos ein serch at un arbennig; dangos cariad mewn ffordd weledol.

Roedd y ffordd wnaeth Iesu ddangos ei gariad i'r byd yn weledol iawn: mynd i'r groes ar ein rhan ni. Prawf gweledol o gariad dwyfol, cariad di-ben-draw, cariad amhrisiadwy.

Roedd Iesu yn anfon ei ddisgyblion i siarad yn y gymuned, ac i weithio gwaith Duw ymhlith y bobol. Dim ond os nad oedd croeso oedd y gorchymyn i adael a gadael y llwch ar ôl.

Ac eto, yn 2024, ry'n ni'n dal i ganoli ein haddoliad mewn bocsys. Ac mae Iesu'n dal i'n holi ni bob un, a ydym yn ei garu yn fwy na'r pethau sydd o'n cwmpas ni. A yw ein cariad ni'n weledol i'n cymunedau ni, neu a yw wedi ei gloi o fewn pedair wal?

Mae Iesu'n dal i ofyn i ni a fyddwn ni yn ei garu cymaint ac yn fwy na'r rhai o'n cwmpas ni. Nid cystadleuaeth yw ein ffydd, dim pwy sydd yn gwneud y mwyaf, ond eto mae disgwyl i rai wneud mwy nag eraill o fewn ein heglwysi ni. Digon rhwydd yw disgwyl i eraill wneud pethau, a ninnau ddim yn gorfod codi bys. Cymuned o gyd-weithwyr yw eglwys.

Roedd y digwyddiad yma'n sialens ffres i Pedr, ei herio i ailgynnau'r tân a'r brwdfrydedd yr oedd wedi'u dangos yn y tair blynedd hyd at yr Wythnos Fawr. Er yr amheuaeth, er y gwadu, roedd Iesu am ddefnyddio'i dalentau a'i ddawn.

Mae Iesu yn comisiynu Pedr i'r gwaith pwysig o fugeilio defaid y Bugail mawr ei hunan – eu bwydo, eu harwain at y porthiant, a'u cadw'n ddiogel; adnabod y defaid, a'r defaid yn ei adnabod Ef.

Yr un alwad sydd i'w chlywed yn 2024: 'portha fy nefaid'. Ydyn ni'n barod i ddangos cariad Crist ar ei orau lle bynnag y bo angen?

'Dilyn fi' oedd galwad Iesu i'r deuddeg ar ddechrau ei weinidogaeth. 'Dilyn fi' yw ei alwad heddiw.

Tyfodd Pedr a chamu ymlaen yn hyderus er gwaetha ambell dro trwstan, fel ry'n ni'n darllen yn yr Actau. Roedd yn caru'r Iesu ac yn gofalu am ei ddefaid. All Iesu ddim gofyn mwy ohonon ni. Dyw Iesu ddim yn gofyn am lai chwaith.

Gweddi

O Dduw cariad, helpa ni i fugeilio dy ddefaid, gan weld yr anghenion a gwneud hynny yn y ffordd arbennig rwyt wedi'i dangos i ni. Helpa ni i weld ein brodyr a'n chwiorydd yn rhan o dy Eglwys di, a bod yn barod i ofalu, bwydo a meithrin y ffydd ym mhob ffordd bosib.

Helpa ni i edrych tu allan i'n llefydd cyfforddus, ac i wasanaethu pawb, heb holi am gred nac edrych ar amgylchiadau.

Gad i ni adlewyrchu dy gariad di ym mhob man: rhoi goleuni yn y tywyllwch, rhoi gobaith lle bo anobaith:

O na bawn fel yr Iesu
yn llawn awyddfryd pur
i helpu plant gofidiau
ac esmwythau eu cur;
O na bawn fel yr Iesu
yn maddau pob rhyw fai
'roedd cariad yn ymarllwys
o'i galon e'n ddi-drai.

Awn i garu yn enw yr Arglwydd Iesu Grist. Amen.

Emyn 721 'O na bawn yn fwy tebyg'

Emyr Williams
Gofalaeth y Gwendraeth

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru